

Rhestr Wirio CV - Gwaith Rhan-Amser/Achlysurol

- Gall dod o hyd i waith rhan-amser ac achlysurol yn ardal Aberystwyth fod yn dipyn o her. Gan fod Aberystwyth yn dref fach mewn ardal wledig, dydy nifer ac amrywiaeth y cyfleoedd i gael gwaith yma ddim mor fawr ag mewn tref fwy neu ddinas. Ac am fod llawer o fyfyrwyr eraill a phobl leol wrthi'n chwilio am waith, mae'r farchnad swyddi'n un gystadleuol iawn.
- Rhaid i chi felly roi'r siawns orau bosibl i chi'ch hun i lwyddo. Y ffordd gyntaf (ac efallai'r bwysicaf) o wneud hynny yw datblygu agwedd gadarnhaol, broffesiynol a rhagweithiol. Gall hynny swnio'n amlwg neu hyd yn oed yn rhy amlwg, ond bydd yn dylanwadu ar bob agwedd ar bob cais wnewch chi. Gan mai'n profiad ni yw bod cyflogwyr yn Aberystwyth yn cael llwyth o CVs am bob swydd wag, mae'n hanfodol i chi gymryd eich cais o ddifrif. Cymerwch dipyn o amser i ystyried a llunio'r cais/CV gorau allwch chi, beth bynnag yw'r swydd. Er enghraifft, os gwnewch chi gais am waith mewn bar neu am waith glanhau gan feddwl amdano fel "dim ond gwaith mewn bar neu ddim ond gwaith glanhau", go brin y cewch chi'r gwaith. Cofiwch fod ymgeiswyr eraill bob amser yn awchu am gael gwaith a'i wneud yn dda. Rhaid i chi hoelio'ch sylw lunio CV a threulio peth amser arno. Mae'n ymarfer rhagorol ar gyfer y tymor hir hefyd - dyma gyfle i chi ddechrau datblygu ffyrdd o feddwl a gweithredu a fydd o help wrth i chi gynnig am swyddi i raddedigion. Yn ogystal â sicrhau swydd yn y tymor byr, byddwch chi'n paratoui at y dyfodol.
- Ystyriwch eich gwerth eich hun! Meddyliwch am y profiad sydd gennych chi, a dysgwch werthfawrogi'r hyn rydych chi wedi'i gyflawni. Mae pob profiad gwaith yn ddefnyddiol. Er mor hawdd ydy diystyru'ch profiad o weithio'n rhan-amser neu'n achlysurol, gall roi sgiliau gwerthfawr i chi. Wrth weithio fel gweinydd(es), er enghraifft, bydd arnoch chi angen sgiliau cyfathrebu da, bod yn ddibynadwy, gweithio mewn tîm, trin arian yn gyfrifol, ac ati. Dyna'r math o gymwyseddau sy'n ddeniadol i ddarparu cyflogwyr. Mae angen i chi hefyd gydnabod manteision unrhyw weithgarwch allgyrsiol, eich aelodaeth o gymdeithasau, chwaraeon, cymwysterau ac ati, yn ogystal â'r cymwyseddau rydych chi wedi'u dysgu wrth wneud eich cwrs gradd (cyflwyno gwaith mewn prydd, er enghraifft).
- Gall y CV fod ar un dudalen neu ar ddwy. Efallai mai CV ar un dudalen sydd fwyaf priodol wrth gynnig am waith rhan-amser, ond bydd CV ar ddwy ddalen hefyd yn gwbl dderbyniol. Os ydych chi'n cynnig am swydd ran-amser, mae'n fwy na thebyg y bydd gan y cyflogwr fwy o ddiddordeb yn eich profiad o weithio nag yn hanes eich addysg: rhowch y flaenoriaeth i hynny. Peidiwch â sôn gormod am eich addysg, eich modiwlau a'ch arholiadau - does dim angen i chi ychwanegu'ch dyddiad geni na'ch cenedligrwydd, hyd yn oed. Ond COFIWCH gynnwys manylion llawn dau ganolwr ... peidiwch ag ysgrifennu "tystlythyrau ar gael drwy ofyn amdanyh nhw" ... a PHEIDIWCH ysgrifennu 'Curriculum Vitae' ar y brig... mae'n amlwg mai CV yw'r ddogfen!
- Addaswch eich CV yn ôl y math o waith/cyflogwr. Os ydych chi'n gwneud cais am swydd benodol, ac os oes gennych chi brofiad o'r math hwnnw o waith, gallwch bwysleisio hynny drwy ei restru'n gyntaf o dan 'PROFIAD GWAITH PERTHNASOL'. Yna, rhestrwch unrhyw brofiad arall o waith o dan 'PROFIAD GWAITH ARALL'. (Er enghraifft, os gwnewch chi gais am swydd mewn siop, byddwch chi'n sôn am unrhyw brofiad o waith siop o dan 'PERTHNASOL', ond gallech chi hefyd gynnwys unrhyw waith gwasanaethu cwsmeriaid neu waith gwerthu arall a allai fod yn berthnasol.) Gallech chi hefyd newid eich 'Amcan Personol' neu'ch 'Proffil Personol' (dewisol) i ddangos pa fath o waith rydych chi'n cynnig amdano (rydyn ni wedi dangos hyn ar gyfer gwaith siop ar y templed o CV trosodd). Meddyliwch sut mae disgrifio'r pethau eraill (ee chwaraeon) rydych chi wedi'u gwneud, a gofalwch grybwyll neu bwysleisio'r cyfrifoldeb a'r sgiliau sy'n berthnasol i'r swydd.
- Rydych chi'n unigryw! Awgrym yw'r templed a welwch chi trosodd, a gall helpu i roi syniadau i chi ynghylch llunio'ch CV. CV syml, clir a chonfensiynol sydd yno - enghraifft a chanllaw'n unig - a does dim angen i chi deimlo bod rhaid i chi ei efelychu. Gan fod angen i chi ddangos eich rhagoriaethau, rhestrwch nhw!

I GAEL CYNGOR CYFFREDINOL YNGHYLCH LLUNIO CV, TROWCH AT Y CANLLAW A'R RHESTR WIRIO

I gael rhagor o gyngor ynghylch llunio'ch CV ac i weld enghreifftiau eraill, ewch i -
www.prospects.ac.uk/careers-advice/cvs-and-cover-letters

I gael gwell syniad o'ch cymwyseddau, ewch i - <https://targetjobs.co.uk/careers-advice/skills-and-competencies>

I ddeall beth mae cyflogwyr yn chwilio amdano, ewch i -
https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/careers/pdf/whatempswant_cy.pdf

www.aber.ac.uk/careers/

Gellir darparu'r wybodaeth hon mewn fformatau gwahanol.
Mae'r wybodaeth hon ar gael yn Saesneg. This information is available in English.
© 2019 Gwasanaeth Gyrfaoedd, Prifysgol Aberystwyth.

SIÔN WATKINS

45a Teras y Frenhines, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 4EN
Ffôn: 075590056789 E-bost: jd08@aber.ac.uk

AMCAN PERSONOL

Rwy'n fyfyrwr gweithgar a dibynadwy ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn chwilio am waith cyson mewn siop yn yr ardal hon am fod gen i gryn brofiad o wasanaethu cwsmeriaid a thrin arian.

PROFIAD GWAITH

2018

Cynorthwydd Archebu-drwy'r-Post, Byd y Beics, Ystrad Rhondda

- Cyfrifol am werthu eitemau a thrin arian
- Gwasanaethu cwsmeriaid ac yn siarad â nhw dros y ffôn
- Bwydo data, yn cadw cofnodion manwl-gywir ac yn rhoi sylw manwl iawn i fanylion
- Cymryd ac archebu stoc

2016 - 2018

Glanhwr ym Mwyty Eidalaid Bellini, Treorci

- Sicrhau safonau uchel o lendid a hylendid yn y ceginau
- Cael hyfforddiant mewn Hylendid, Diogelwch Bwyd, ac Iechyd a Diogelwch
- Blaenoriaethu'r dyletswyddau ac yn trefnu'r llwythi gwaith
- Gweithio'n effeithiol ar fy mhen fy hun heb i neb fy ngoruchwyllo, ac fel rhan o dîm

2014

Cynorthwydd Golygyddol (Profiad Gwaith), Rhondda Gazette, Treorci

- Cysylltu dros y ffôn â chwmnïau ac asiantaethau'r cyfryngau
- Ysgrifennu copi a golygu, bod yn fanwl-gywir a defnyddio fy sgiliau Saesneg

ADDYSG A CHYMWYSTERAU

2018 - 2021

Prifysgol Aberystwyth

BA (Anrh) Llenyddiaeth Gymraeg

2011 - 2018

Ysgol Gyfun Gymraeg Trehebert

Safon Uwch: Cymraeg (B), Hanes (B), Cyfryngau (C)

TGAU: 10 gradd A*-C (gan gynnwys Mathemateg, Cymraeg a Saesneg)

SGILIAU YCHWANEGOL

Cwrs Iechyd a Diogelwch, Tachwedd 2016

leithoedd

Almaeneg (eitha sylfaenol)

TG

Rwy' wedi hen arfer defnyddio MS Office (Word, Excel a PowerPoint), e-bost a meddalwedd y we

CYRAEDDIADAU ERAILL

2016 - 2018

Cylchgrawn 'Cnape', cylchgrawn llenyddol Ysgol Gyfun Gymraeg Treherbert

Cyfrannwr, Cyd-Olygydd ac aelod o'r Pwyllgor

- Llunio erthyglau ar gyfer cylchgrawn llenyddiannus y myfyrwyr
- Gwneud gwaith golygu gan gadw at yr amserlen, a chyfrannu at weinyddu cyhoeddi'r cylchgrawn

2011 - 2016

Tîm Pêl-droed Ysgol Gyfun Gymraeg Treherbert

- Capten y tîm am 3 blynedd yn olynol
- Cystadlu ym Mhencampwriaethau'r Sir, 2013-2015

DIDDORDEBAU

Mae gen i ddiddordeb mawr mewn llenyddiaeth a llenyddda, ac mae rhai o 'ngherddi wedi'u cyhoeddi yn *Barddas*. Rwy'n hoff o chwaraeon, ac o bêl-droed yn arbennig, ac rwy' wedi chwarae'n gyson i dîm lleol. Bydda i hefyd yn mwynhau trafaelu a blasu diwylliannau dierth.

CANOLWYR

Dr Rhys Williams, Yr Adran Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, SY23 2AX

Ffôn: 01970 62xxxx / E-bost: xxx@aber.ac.uk

Mr Robert Jenkins, Rhondda Gazette, Treorchy House, Treorci CF42 1TR

Ffôn: 01653 700xxx / E-bost: xxx@rhonddagazette.co.uk

www.aber.ac.uk/careers/

Gellir darparu'r wybodaeth hon mewn fformatau gwahanol.
Mae'r wybodaeth hon ar gael yn Saesneg. This information is available in English.
© 2019 Gwasanaeth Gyrfaoedd, Prifysgol Aberystwyth.